

Cynllun Sefydlu ar gyfer Cynorthwy-ydd Personol - enghraifft

Enw'r Cynorthwy-ydd Personol: Mari Hopkins	Dyddiad:
Enw'r cyflogwr: Anwen Williams	05 Tachwedd 2014

Mae cyfnod Sefydlu wedi'i gynllunio yn helpu i'ch cyflwyno i'ch rôl a'ch cyfrifoldebau. Mae'n darparu strwythur er mwyn cynllunio sut y gellir eich cefnogi i gaffael, datblygu a chryfhau eich gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n hanfodol o ran eich rôl yn ystod yr ychydig ddyddiau ac wythnosau nesaf.

Y wybodaeth, sgiliau a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen	Sut i gyflawni hyn?	Pryd a ble?
Gwybod am daliadau uniongyrchol a sut maent yn gweithio	Byddaf yn rhoi gwybod i Mari am daliadau uniongyrchol ac yn siarad am hyn. Gall Mari ddarllen gwefan y gwasanaeth cymorth.	Diwrnod 1 wrth i ni gael ein trafodaeth gyntaf
Gwybod sut rwy'n disgwyl i chi fy nghefnogi	Byddwn yn trafod hyn ac yn defnyddio'r swydd ddisgrifiad i helpu; cewch chi ofyn cwestiynau am unrhyw beth nad ydych yn siŵr yn ei gylch. Byddaf yn esbonio sut rwy'n hoffi i bethau gael eu gwneud, ble mae pethau'n cael eu cadw a'r hyn y dylech chi eu gwneud neu dylech chi beidio â gwneud. Byddaf yn trefnu bod Julie, fy nghynorthwy-ydd personol arall, yn dangos i chi sut mae hi'n fy nghefnogi gyda rhywfaint o dasgau allweddol. Wedyn, gallwch roi cynnig arnynt a byddaf yn rhoi rhywfaint o adborth i chi.	Diwrnod 1 wrth i ni gael ein trafodaeth gyntaf Diwrnod 1 pan fyddaf yn eich arwain o gwmpas fy nghartref Wythnos 2

Cyfarfod â rhai eraill, gan gynnwys teulu, ffrindiau a cynorthwywyr personol eraill	Byddaf yn eich cyflwyno i Julie a Katie (cynorthwywyr personol), fy mhlant, fy modryb ac i ffrindiau sy'n bwysig i mi.	Boreau dydd Mawrth a Mercher Cyflwyno i'r plant ar ôl yr ysgol Fel bod y cyfle'n codi
Deall y gwerthoedd a'r agweddau y teimlaf eu bod yn bwysig, megis cefnogi fy annibyniaeth, parchu fy iaith a'm diwylliant	Gallwch ddarllen y Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol a gallwn siarad am hyn.	Wythnos 2
Gwybod am gyfrinachedd, gan gynnwys hawliau i breifatrwydd a sut i gadw gwybodaeth gyfrinachol yn ddiogel	Byddaf yn esbonio pam y mae'n bwysig i chi beidio â rhannu unrhyw wybodaeth amdanaf gyda phobl eraill a byddaf yn gofyn i chi lofnodi cytundeb cyfrinachedd.	Diwrnod 3 – trafodaeth gartref
Gwybod am ddiogelwch yn y gwaith megis sut i'm helpu i symud yn ddiogel, beth i'w wneud mewn tân, cymorth cyntaf sylfaenol a phryd i geisio cymorth meddygol, gweini meddyginiaeth yn ddiogel	Rwyf wedi cadw lle i chi ar gwrs Symud a Gosod Byddwn yn siarad am sut i ymateb mewn argyfwng meddygol a chadarnhau hyfforddiant hyd yn hyn Byddaf yn dweud wrthoch chi am y feddyginiaeth rwy'n ei chymryd a sut y gallwch fy helpu gyda hyn.	Diwrnod 4 – cwrs hyfforddi gyda'r gwasanaeth cymorth lleol Trafodaeth ac arddangosiad
Deall ffiniau megis y gwahaniaeth rhwng perthynas cyflogwr a chyflogai a bod yn ffrindiau	Byddaf yn esbonio pwysigrwydd cadw ein perthynas yn broffesiynol. Gallwn drafod hyn a chytuno ar sut y byddwn yn gweithio i sefydlu perthynas waith dda.	Trafodaeth
Dysgu a datblygu parhaus	Byddwn yn siarad am bwysigrwydd parhau i ddysgu a datblygu sgiliau a gwybodaeth newydd.	Trafodaeth Sefydlu cysylltiad gyda'r gwasanaeth cymorth lleol er mwyn cael gwybod am gyfleoedd hyfforddi